PAPUR WYTHNOSOL YR ANNIBYNWYR CYMRAEG

# Y TYST

Sefydlwyd 1867 | Cyfrol 158 | Rhif 3 | Ionawr 16, 2025 | 50c.

# Diwrnod gweithredu dros iechyd GAZA

Ar ddydd Sadwrn, 4 Ionawr, fe gynhaliwyd digwyddiad arbennig lle y daeth grwpiau ledled Cymru at ei gilydd i sefyll mewn undod â gweithwyr iechyd a meddygol Gaza sydd wedi dioddef ymosodiadau di-baid gan fyddin Israel dros y pymtheg mis diwethaf. Mae dros fil o weithwyr iechyd wedi eu lladd a llawer o adnoddau iechyd wedi eu dinistrio. Bu gwrthdystiad yn Ysbyty Gwynedd, Bangor; Ysbyty Maelor, Wrecsam; Ysbyty Glan Clwyd, Bodelwyddan; Ysbyty Bronglais, Aberystwyth; Ysbyty Glangwili, Caerfyrddin; Ysbyty'r Grange, Cwmbrân ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg, Tonysguboriau.

### Lladd, ymosod a chipio



Ar ddiwedd 2024, targedwyd Ysbyty Kamal Adwan yng ngogledd Gaza. Adroddir bod 50 o bobl wedi cael eu lladd yn yr ysbyty neu'n agos ati gan filwyr Israel. Ddiwedd Rhagfyr, yn dilyn wythnosau o fomio di-baid, goresgynnodd lluoedd Israel yr ysbyty, gan gymryd 240 o bobl yn wystlon, gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd a chleifion. Mae'r Euro Medical Human Rights Monitor wedi cofnodi adroddiadau dirdynnol o droseddau difrifol a gyflawnwyd gan luoedd Israel yn ystod yr ymosodiad ar yr ysbyty, gan gynnwys llofruddiaethau bwriadol, dienyddiadau, yn ogystal ag ymosodiadau rhywiol a chorfforol ar fenywod a merched. Un o'r rhai a gipiwyd oedd Cyfarwyddwr Meddygol yr ysbyty, Dr Hussam Abu Safia. Yn Hydref 2024, cafodd mab Dr Abu Safia ei ladd gan daflegryn Israelaidd ac anafwyd Dr Abu Safia hefyd gan shrapnel o ymosodiad drôn a darodd yr ysbyty.

### Amnest

Mae Amnest Rhyngwladol wedi adrodd: 'Ers dechrau'r hil-laddiad yn erbyn Palestiniaid yn Gaza, mae Israel wedi cipio cannoedd o weithwyr gofal iechyd Palesteinaidd heb gyhuddiad na phrawf. Cafodd gweithwyr iechyd eu harteithio a'u cam-drin mewn ffyrdd eraill a'u caethiwo heb iddynt allu cyfathrebu â neb.' Mae'r ymgyrchwyr yn galw ar aelodau seneddol Cymru yn San Steffan ac aelodau'r Senedd yng Nghaerdydd i fynnu rhyddhau Dr Abu Safia, ei gydweithwyr a'i gleifion ar unwaith ac yn ddiamod.

Dywedodd llefarydd ar ran y grŵp sy'n trefnu'r diwrnod o weithredu:

'Galwn ar Ysgrifennydd Tramor y Wladwriaeth Brydeinig, David Lammy i fynnu bod Israel yn rhyddhau Dr Hussam Abu Safia a'r holl weithwyr iechyd eraill mewn caethiwed ar unwaith. Mae'n bwysicach nac erioed ar ddechrau 2025 bod ein llais dros heddwch a chyfiawnder i bobl Palesteina yn cael ei glywed yn eglur.'

### Neges dreuliedig

Mae lladdfeydd didostur Israel o bobl ddiniwed a dinistrio bwriadol o seilwaith sifilaidd, yn enwedig y sector iechyd ym Mhalesteina, Libanus ac erbyn hyn, Syria yn gorfod dod i ben. Mae'n hen bryd i'n gwleidyddion, yn enwedig yn San Steffan i roi'r gorau i adrodd y neges dreuliedig fod 'gan Israel hawl i amddiffyn ei hun', a chydnabod yn gwbl eglur bod Israel yn cyflawni hil-laddiad er mwyn creu 'Israel Fwy'.

Am ragor o wybodaeth cysylltwch gydag Anna Jane Evans, Caernarfon ar 07901 545114.

(Derbyniwyd y wybodaeth uchod mewn gohebiaeth gan y Parchg Guto Prys ap Gwynfor)


## Croeso i'r Calan

Pan fo'r Nadolig heibio
a'r Calan bron â dod,
a'r Ŵyl a'i hwyl a'i helynt
yn bethau wedi bod,
caf orig dyner, dawel
heb neb i dorri'r hud
i gofio hen fwynderau
y flwyddyn ar ei hyd.

Daw'n ôl bob gair caredig
a wnaeth fy maich yn llai,
a'm dwyn drwy gawod Ebrill
i wenau melyn Mai.
Munudau nosau Medi
ac oriau'r dyddiau dof
a fydd fel melodïau
yn canu yn y cof.

A phan ddaw'r flwyddyn newydd
fel plentyn at fy nôr,
cyn agor clawr ei basged
i ddangos im ei stôr,
'does fawr y gwnawn ei ofyn
yn anrheg ganddi hi
ond rhai o'r hen gysuron
a roes ei mam i mi.

**John Gwilym Jones**
(allan o *Pigion Peniel* Ionawr 2025)



# 2025

Hyderaf yn fawr eich bod wedi mwynhau'r ŵyl a mwy na dim dathlu genedigaeth diddanwch yr Israel ac yn ei dderbyn fel Ceidwad. Mae'r pethau arhosol yn y gorffennol fel dywed Waldo:

A geiriau bach hen ieithoedd diflanedig
Hoyw yng ngolwg dynion oeddynt hwy
A thlws i'r glust ym mharabl plant bychain
Ond tafod neb ni ei eilw arnynt mwy.

Mae tyndra rhwng dyn ac amser yn poeni llawer ond mae bywyd yn edrych fel cylch bach o'r crud i'r bedd. Cylch na ellir ei dorri. Ni ellir ei osgoi a rhaid symud ymlaen. Wedi dweud hyn mae Amser wedi dod a Blwyddyn Newydd inni. O edrych yn ôl mae gan lawer ohonom le i ddiolch pe byddem yn mentro cyfrif ein bendithion.

Pan oeddwn yn ysgol y Porth, yr athro Astudiaeth Grefyddol roedd Gilbert Davies – athro tu hwnt o dda – yn un oedd yn medru esbonio pynciau mwyaf dyrys yn ddealladwy i blentyn. Roedd yn bregethwr lleyg. Roedd yn gadael yr ysgol a dyma fe yn rhoddi adnod inni ei dysgu o lyfr cyntaf Samuel pennod 7 sef:

> Yna cymerodd Samuel faen, a'i osod rhwng Mispa a Sên a'i alw'n Ebeneser, a dweud, 'Hyd yma y cynorthwyodd yr ARGLWYDD ni.'
>
> (1Sa 7:12)


Hyd yn hyn y cynorthwyodd yr Arglwydd ni. (Thus far the Lord has helped us.) Beth yw'r hanes?

Yn fyr, ar ôl gadael yr Aifft bu'r genedl yn byw yn afreolus dros ben. Roeddynt wedi colli rhyfel ar ôl rhyfel a'r trychineb mawr oedd bod y genedl wedi colli'r Arch – Arch y Cyfamod – i'r Philistiaid. Ond fe ddaeth tro ar fyd ac fe gafwyd yr Arch yn ôl ac yn ystod y dathlu mawr ym Mispah cymerodd Samuel faen a'i gosod gan ddweud, 'Hyd yn hyn yr Arglwydd a'n cynorthwyodd ni.' Chi'n gweld, ers gadael yr Aifft, er i'r genedl fynd trwy dlodi, afiechyd, pechod, a hyd yn oed cefnu ar Dduw. Er hynny i gyd roedd yr Arglwydd yn ffyddlon iddynt hwy. Rhaid i ninnau gofio fod Duw yn Dduw trugarog a ffyddlon tuag at ei bobl, ac er i ninnau syrthio, pechu a chefnu arno y mae ef yn parhau i'n galw yn ôl ato i ymddiried ynddo. O ganlyniad i hyn gallwn gamu ymlaen yn hyderus i flwyddyn 2025 gan wybod bod Duw yn rasol a bod ei ddwylo Ef ar yr awenau.

Pob bendith am 2025.

**Elwyn, Caerffili**

# Carol Plygain Newydd




Roedd Mair Eluned Davies (1929–2023) yn awdures gynhyrchiol iawn. Cyhoeddwyd casgliad sylweddol o'i gwaith, *Cerddi ac Ysgrifau*, dan olygyddiaeth ei mab yng nghyfraith, John Emyr, yn 2001. Meddai'r Prifardd Idris Reynolds yn ei adolygiad o'r gyfrol honno: 'Trwy gyfrwng y gyfrol hardd hon […] deuthum i'w hadnabod fel gwraig rinweddol a roes oes o wasanaeth i'w theulu, i'w chyd-ddyn ac i'w Christ. Daw ei phersonoliaeth hawddgar i'r golwg fesul tudalen, ac mae ei ffydd yn Nuw yn sail gadarn i'r gyfrol.' Ceir hefyd yn y gyfrol ysgrif hunangofiannol sy'n canolbwyntio'n arbennig ar ei magwraeth yn 'ferch y mans' yn Wallasey, Bae Colwyn a Rhosllannerchrugog, ac ar ei chyfnod yn fyfyrwraig ym Mangor.

Yn 2021, cyhoeddwyd y llyfryn, *Caniadau*, sy'n cynnwys 35 o gerddi ychwanegol ganddi; ond wedi i Mair Davies farw yn Ionawr 2023, daeth rhagor o'i cherddi i'r golwg. Yn eu plith, roedd carol plygain a luniodd yn 2007. Gan fod y mesur yn un eithaf anghyfarwydd, penderfynwyd ei haddasu fel bod modd ei chanu ar y mesur poblogaidd 'Trymder'. Dyma'r garol yn ei ffurf ddiwygiedig:

Distewch, holl gynyrfiadau'r byd,
A'r datgan gwae,
A thrown ein camre at y crud,
Cans yno mae
Y Baban mwyn roes Duw i ni,
A throsto gysgod Calfarî
Oherwydd ein camweddau ni,
Ac E'n ddi-fai.
Fe goncrwyd dychrynfeydd y Fall
Drwy'i eni Ef,
A mawl sy'n esgyn fry'n ddi-ball
I entrych nef.
Fe ddaeth y Mab yn Had y Wraig,
Addawyd gynt i ddryllio'r ddraig,
I'n gosod ninnau ar y graig,
A'n dwyn i dref.
Llawenydd sydd yn nef y nef
Am eni'r Oen;
Mae'n hiachawdwriaeth ynddo Ef,
Drwy'i ddirfawr boen.
Fe gerddodd ar ein daear ni
Heb feddu dim ohoni hi,
Ond bellach Ef yw'n T'wysog fry,
Y Llew llawn hoen.
A phan yn ulw'r elo'r byd,
A'r diwedd fydd
Ar ei ysblander ffals a'i hud,
Pan ddaw y Dydd,
Teyrnasu wna yr Oen bryd hyn,
A'i afael ar Ei blant yn dynn
Trwy'r gwaith gyflawnodd ar y bryn:
Gwaredwr sydd!
Fe gwyd ein Haleliwia fry
I Grist ein Cawr;
Gorfoledd ddaw i'n hysbryd ni
Ar doriad gwawr.
Holl dyrfa'r saint sydd yn gytûn,
A'r cread crwn sydd megis un
Yn moli'r Duwdod yn y dyn –
Ein Ceidwad mawr.

*Mair Eluned Davies* (1929–2023)

**E. Wyn James**

# Cofiadur 2024

Mae rhifyn Gaeaf 2024 o'r *Cofiadur* ar gael o Dŷ John Penri nawr.

Mae'n cynnwys Darlith Goffa Dr Pennar Davies a'r Dr R. Tudur Jones 2024 a draddodwyd gan y Parchg Ddr Alun Tudur ac erthygl yn seiliedig ar sgwrs a roddwyd gan Mr Richard Huws yng nghyfarfodydd yr Undeb 2024 am ei ewythr y Parchg Rhys Nicholas.

Os hoffech gopi yn rhad ac am ddim, cysylltwch â Thŷ John Penri i'w archebu: undeb@annibynwyr.cymru neu 01792 795888. Mae hefyd ar gael i'w ddarllen ar y we.

Yr Adran Gydenwadol

IONAWR 16 2025 RHIF 203

# Bwletin Polisi Cytûn yn parhau i'n hysbysu a'n hannog i weithredu

Daeth rhifyn Rhagfyr 2024–Ionawr 2025 o gyhoeddiad Cytûn atom eto, a diolch am y gymwynas ddeufisol hon â ni fel eglwysi yng Nghymru. Edrychwn ymlaen at dderbyn un Bwletin arall o leiaf o law Gethin Rhys cyn ei ymddeoliad ym mis Ebrill, gan ddymuno'r gorau iddo ac i Cytûn wrth iddyn nhw geisio olynydd iddo yn y gwaith. Y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio am Swydd Swyddog Polisi rhan amser gyda Cytûn yw 17 Ionawr.

Dyma grynodeb o rai o'r materion a gaiff sylw yn y cyhoeddiad. I'w ddarllen yn llawn ac i ddilyn y dolenni pellach, cliciwch yma: https://www.cytun.co.uk/

**Cymorth i Farw**
Rhoddir crynodeb gwerthfawr ar flaen y Bwletin o ymatebion yr enwadau yng Nghymru i'r bleidlais a fu yn San Steffan yn cefnogi Cymorth i Farw. Ond mae Cytûn yn ofalus yn nodi y bydd angen cytuno ar gynnig cydsyniad deddfwriaethol am y Bil hwnnw yn Senedd Cymru, gan mai gwasanaeth iechyd datganoledig Cymru fyddai'n ei weithredu yng Nghymru. A chofier i Senedd Cymru wrthwynebu cynnig tebyg ar y pwnc ar 23 Hydref y llynedd.

Gyda'r drafodaeth yn San Steffan nawr yn symud i Bwyllgor, a fydd yn casglu tystiolaeth gan amrywiol fudiadau a'r cyhoedd, gallwn ddisgwyl i'r drafodaeth barhau ac i gyfraniadau Cristnogol amlhau yn y misoedd i ddod. Rhoddir sylw i'r rheiny mewn rhifynnau pellach o'r Bwletin Polisi.

**Ymchwiliad Covid-19 y Deyrnas Unedig i ystyried crefydd**
Mae'r Farwnes Hallett wedi cyhoeddi agor modiwl olaf yr ymchwiliad, Modiwl 10, a fydd yn archwilio maes hynod eang 'Effaith ar gymdeithas'. Ymhlith y pynciau a gynhwysir mae "cyfyngiadau ar addoli" a "galarwyr, gan gynnwys cyfyngiadau ar drefniadau angladd a chladdedigaethau a chymorth ar ôl profedigaeth" yn ogystal ag effeithiau lletach ar gymdeithas a fyddai hefyd o ddiddordeb i'r eglwysi.

Mae modd i unrhyw un gyflwyno tystiolaeth i'r Modiwl, ac mae'n fwriad gan Cytûn wneud hynny. Gall enwadau unigol, henaduriaethau, eglwysi lleol ac ati gyfrannu hefyd, os dymunant. Gall unigolion gyfrannu trwy gynllun Mae Pob Stori o Bwys: Every Story Matters - UK Covid-19 Inquiry. Cyhoeddir dyddiadau cau ar gyfer cyflwyno tystiolaeth (tua hydref 2025, mae'n debyg) a dyddiadau'r gwrandawiadau llafar (gwanwyn 2026) maes o law.

**Cyfreithiau Claddu ac Amlosgi newydd i Gymru?**
Mae Comisiwn y Gyfraith wedi cyhoeddi argymhellion am ddiwygio'r gyfraith ar gladdu ac amlosgi a fyddai'n effeithio ar bob angladd ac ar bob mynwent. Bu Cytûn yn pwysleisio bod y rhan fwyaf o'r materion hyn wedi eu datganoli i Senedd Cymru, sy'n golygu y gallai fod cyfreithiau gwahanol yn Lloegr a Chymru yn y dyfodol.

Diolchwn i Cytûn am eu gwaith yn paratoi ymateb ynghylch materion sy'n gyffredin i holl eglwysi Cymru i'r ymgynghoriad cynhwysfawr hwn.

Dim ond y cam cyntaf tuag at ddiwygio'r gyfraith yw hwn; bydd y Comisiwn yn cyhoeddi ei argymhellion terfynol tua diwedd 2025, a byddai angen i Lywodraeth y Deyrnas Unedig a Llywodraeth Cymru benderfynu a ydynt am dderbyn y cyfan neu rai ohonynt, ac wedyn llunio deddfwriaeth bwrpasol.

**Housing Justice – "Ni allwn fod yn genedl noddfa heb dai"**
Mae adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd gan un o aelodau Cytûn, sef Housing Justice Cymru, yn galw ar Lywodraeth Cymru i weithio gydag elusennau, llywodraeth leol a chymdeithasau tai i atal digartrefedd ymhlith pobl sy'n ceisio noddfa yng Nghymru. Mae'n awgrymu y gallai'r argyfwng tai presennol negyddu nod Llywodraeth Cymru o fod yn Genedl Noddfa gyntaf y byd, oni bai i'r sector tai gael ei gynnwys yn llawnach. Bu Cytûn yn greiddiol i'r ymgyrch dros osod y nod o Gymru fel Cenedl Noddfa.

**Eglwysi'n hybu iechyd da**
Mae Ymddiriedolaeth Genedlaethol yr Eglwysi (NCT) wedi cyhoeddi adroddiad newydd yn tafoli cyfraniad eglwysi i iechyd eu hardaloedd. Dan yr enw The House of Good: Health | National Churches Trust, mae'n ganlyniad ymchwil fanwl i'r holl weithgareddau sy'n digwydd mewn addoldai Cristnogol o bob enwad sy'n cyfrannu at iechyd corfforol a meddyliol. Mae enghreifftiau cynnwys banciau bwyd, gwasanaethau iechyd meddwl, grwpiau ieuenctid a chefnogaeth gyda chyffuriau ac alcohol. Mae'n amcangyfrif bod y gweithgareddau hyn gyda'i gilydd yn arbed £8.4 biliwn i'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol ledled y Deyrnas Unedig, yn ogystal â helpu degau o filoedd o bobl bob blwyddyn.

**Mudiadau gwirfoddol yn mynegi pryder am Yswiriant Gwladol**
Yn dilyn cyhoeddi cyllideb Llywodraeth San Steffan ar 30 Hydref, mynegwyd pryderon dwys gan fudiadau gwirfoddol, gan gynnwys eglwysi, am y cynnydd yng nghyfraniadau Yswiriant Gwladol i gyflogwyr. Dyma un sylw mewn llythyr at lywodraeth San Steffan a arwyddwyd ar ein rhan gan Cytûn:

"Mae'r newid hwn yn fwy na rhwystr ariannol; mae'n her sylfaenol i sector sydd eisoes o dan bwysau aruthrol yn sgil y cynnydd cyflym yn y galw am wasanaethau a'r cynnydd mewn costau byw a yrrir gan chwyddiant a chyllid cyfyngedig. Nid ffigurau'n unig mo'r rhain – maen nhw'n wasanaethau tyngedfennol a allai wynebu toriadau os na fydd y cyllid yn addasu i fodloni'r costau annisgwyl hyn. Rydym yn barod i weithio gyda Llywodraeth Cymru fel partneriaid i fynd i'r afael â'r pryderon hyn."

**Llywodraeth Cymru'n ariannu Croeso Cynnes**
Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £1.5m i gefnogi ac ehangu lleoedd diogel a chynnes i bobl o bob oed gael mynediad iddynt yn eu cymunedau.

Mae Cytûn yn annog pob eglwys leol sy'n ystyried agor neu barhau â chanolfan croeso cynnes (dan unrhyw enw) i gofrestru ar wefan Croeso Cynnes: Warm Welcome Campaign a chyrchu'r adnoddau sydd ar gael yno.




# Yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol, 18–25 Ionawr 2025
# A wyt ti'n credu hyn?
# Dathlu 1700 mlynedd ers llunio Credo Nicea

**Cyflwyniad**

Wrth wraidd ein myfyrdodau ar gyfer yr Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol eleni mae'r cwestiwn a ofynnwyd gan Iesu i Martha: "A wyt ti'n credu hyn?" (Ioan 11:26).

Roedd yr un cwestiwn hwn yn atseinio drwy gydol trafodaethau'r Cyngor Eciwmenaidd cyntaf, a gyfarfu yn Nicea yn y flwyddyn 325, gan ddod â chymunedau Cristnogol o bob cwr o'r byd ynghyd i gryfhau eu cydberthynas fel Eglwys Iesu Grist. O'i ddarllen ar ei ben ei hun, gallai'r cwestiwn ymddangos fel her drawiadol. Ond yn y cyd-destun ysgrythurol mae'n amlwg bod Iesu'n dweud y geiriau hyn yn gariadlon, a'u bod wedi'u derbyn fel gwahoddiad yn ogystal â her. Yn yr un modd, er nad oedd Cyngor Nicea heb ei heriau wrth i Eglwys glwyfedig a gwasgaredig geisio dirnad gwirionedd neges yr Efengyl, roedd yno awydd amlwg i ddyfnhau cysylltiad a pherthyn ac i fyw'n ffyddlon fel disgyblion Crist.

Wrth fyfyrio ar y digwyddiadau hyn, cawn ein hatgoffa bod rhodd ein ffydd yn ein calonogi yn ogystal â'n herio. Cafodd dathlu 1700 mlynedd ers Cyngor Nicea ei groesawu â brwdfrydedd gobeithiol yn yr Eglwys fyd-eang ac mewn cyrff eciwmenaidd, gan ysbrydoli ystod eang o ddigwyddiadau a thrafodaethau. Mae'r dathlu'n achlysur arwyddocaol ledled y gwahanol draddodiadau Cristnogol, er gwaethaf y rhannu fu ar ein llwybrau yn y canrifoedd ers hynny. Mae rhai wedi aros yn agosach at yr Eglwys a ragwelwyd yn Nicea, â Chredo Nicea wedi parhau i fod yn ganolog bwysig fel datganiad o ffydd. Ar y llaw arall, mae eraill wedi dilyn patrymau nad ydynt yn seiliedig ar gredoau, gan roi mwy o




bwyslais ar ffyrdd eraill o fynegi ffydd Gristnogol gyffredin. Mae edrych yn ôl gyda'n gilydd o'n gwahanol safbwyntiau yn gyfle i ddyfnhau cyd-ddealltwriaeth a'n perthynas â'n gilydd, gan gryfhau ein hundod mewn amrywiaeth.

Er ein bod yn cydnabod gwerth edrych tuag at y gorffennol, rydym hefyd wedi bod yn ymwybodol o'r angen i fyfyrio ynghylch y modd yr ydym yn ymateb i gwestiwn Crist o dan amgylchiadau heddiw. Wrth wneud hynny, priodol yw inni ystyried yr hyn y gallem ei ddysgu oddi wrth esiampl a phrofiad Nicea. Cwestiwn pwysig yn hynny o beth, ac un y mae adnoddau'r Wythnos Weddi dros Undeb Cristnogol eleni yn ceisio ymateb iddo yw: sut mae hyn oll yn berthnasol i fywyd a chenhadaeth yr eglwys leol?

Mae gennym gyfle i ddathlu a phrofi cryfder ac anogaeth o rodd ein ffydd gyffredin. Yn yr amseroedd cythryblus ac ansicr hyn, gall dygnwch y ffydd honno fod yn achos gobaith i ni. Roedd yr Eglwys a ymgynullodd yn Nicea yn un a gawsai ei hysgwyd a'i chlwyfo gan drais ac erledigaeth, ac felly gallai uniaethu â dioddefaint y ddynoliaeth. Daeth cyfle iddi fod mewn deialog â'r grymoedd gwleidyddol oedd yn gosod dewisiadau anodd iddi ynghylch y ffordd orau i ddisgyblion ffyddlon Crist, nad yw ei Deyrnas o'r byd hwn, rannu Newyddion Da'r Efengyl. Yn y byd rhwygedig sydd ohoni heddiw, ac ymddiriedaeth pobl ym mharodrwydd grymoedd ac awdurdodau gwleidyddol, a'r Eglwys ei hun, i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed, wedi'i thanseilio sut y gallai adnewyddu ein hymrwymiad i undod Cristnogol gyfrannu at newid er gwell?

Mae angen gweledigaeth newydd ar ein byd o ystyr heddwch sy'n canolbwyntio ar gydnabod ein bod yn gydgysylltiedig yn ein dynoliaeth gyffredin. Wrth i ni ddod ynghyd i nodi 1700 blynedd ers Cyngor Nicea, mae gennym gyfle i ofyn y cwestiynau anodd ynghylch yr hyn allai fod yn amharu ar ein hunaniaeth gyffredin fel Cristnogion a'n cyd-dystiolaeth i'r byd. Fe'n hatgoffir o rym trawsffurfiol ein ffydd sy'n cynnig gobaith mewn dioddefaint drwy'r addewid yr adnewyddir popeth yng Nghrist.

**Dr Nicola Brady, Ysgrifennydd Cyffredinol, Eglwysi Ynghyd ym Mhrydain ac Iwerddon**

*I lawrlwytho'r deunyddiau yn Gymraeg, llyfryn defosiwn dyddiol a chanllaw gwasanaeth, posteri etc. dilynwch y ddolen hon:*

[Adnoddau ar gyfer Wythnos Weddi am Undeb Cristnogol 2025]

S4C

***Dechrau Canu, Dechrau Canmol***
**Sul, 19 Ionawr, am 7:30yh – Diwygiad 1904/05**
Bydd Lowri Morgan yn ardal Casllwchwr i nodi 120 mlynedd ers Diwygiad Evan Roberts yn 1904–05. Ymhlith ei gwesteion fydd yr Athro M Wynn Thomas.


BBC radio cymru

***Caniadaeth y Cysegr***
Sul, 19 Ionawr, am 7:30yb a 4:30yp
Rhaglen o ganu cynulleidfaol yng nghwmni'r Parchedig Dylan Rhys

***Oedfa Radio Cymru***
**Sul, 19 Ionawr, am 12:00yp**
Wythnos Weddi am Undod Cristnogol – oedfa dan arweiniad Cynan Llwyd, Cytûn

# Llyfr y Pregethwr

**Yn ystod y tymor hwn byddwn yn astudio Llyfr y Pregethwr gyda'n gilydd dan arweiniad y Parch. Ddr Alun Tudur, gan ddefnyddio cyfrol y diweddar Gareth Lloyd Jones, *Dehongli Bywyd Ruth a Llyfr y Pregethwr* yn ganllaw.**




**Astudiaeth 2: Llyfr y Pregethwr 1:1–2**

Fe awn ymlaen yr wythnos hon i edrych ar adnodau cyntaf Llyfr y Pregethwr gan ystyried yr awduraeth. Darllenwch y ddwy adnod agoriadol gan eu bod yn rhoi cyfeiriad i gynnwys y llyfr.

Yn ôl y traddodiad Iddewig, y brenin Solomon oedd yr awdur, mab y Brenin Dafydd. Dywed un ffynhonnell iddo gyfansoddi Cân y Caniadau pan oedd yn ifanc a nwydus; y Diarhebion pan oedd yn ganol oed ac arno angen doethineb fel llywodraethwr; a Llyfr y Pregethwr pan oedd yn hen ac yn teimlo fod bywyd yn faich. Wrth gwrs, roedd gan Dafydd nifer o feibion ac ni ddywedir yma pa un. Ni nodir ychwaith ym mha gyfnod yr ysgrifennwyd y llyfr, felly y mae amheuon wedi codi ynglŷn â'r awduraeth.

**Amau'r traddodiad**

Y cyntaf i wadu mai Solomon oedd yr awdur oedd Martin Luther. Credai ef mai cyfuniad o gyfansoddiadau bychain a luniwyd gan Iesu fab Sirach yng nghyfnod y Macabeaid, tua 170 CC, oedd y llyfr. Y farn gyffredin bellach yw mai gwaith awdur dienw ydyw, a'i fod yn tarddu o gyfnod diweddarach na'r ddegfed ganrif cyn Crist.

**Y Pregethwr**

Beth bynnag ei dras a'i gefndir, yn yr Hebraeg gwreiddiol y mae'r awdur yn cael ei alw'n *côheleth* (pregethwr), gair a achosodd gryn benbleth i esbonwyr a chyfieithwyr, o'r tadau Cristnogol cynnar ymlaen. Cyfieithiad y fersiwn Roeg o'r Hen Destament ohono yw *ekklesiastes*: ymgais i wneud cyfiawnder â'r Hebraeg gan mai ystyr sylfaenol *câhâl* (gwraidd y gair *côheleth*) yn yr Hebraeg ac *ekklesia* yn y Roeg yw 'cyfarfod' neu 'gynulleidfa'. Yr enw *ekklesiastes* a fabwysiadwyd gan y cyfieithiadau Saesneg. Dilynodd Jerôm, un o ddiwinyddion mwyaf yr Eglwys Fore, yr un trywydd yn ei gyfieithiad Lladin o'r Ysgrythur wrth alw'r awdur yn *concionator*, sef yr un a âi o amgylch y ddinas i alw'r bobl ynghyd i'r sgwâr i wrando ar anerchiad y llywodraethwr.

Mae'r teitl 'Y Pregethwr' yn cyfateb i'r hyn a gafwyd gan Martin Luther yn ei gyfieithiad Almaeneg o'r Beibl a gyhoeddwyd ym 1534. Cynigiwyd enwau eraill ers hynny: 'Yr Athro', 'Y Llefarydd', 'Yr Athronydd'. Ond bellach, awgrym Luther yw'r teitl mwyaf adnabyddus i ni. Pwy bynnag ydoedd, *côheleth*, 'y Pregethwr', ef sy'n traethu yn y rhan helaethaf o'r llyfr, er bod llawer o'r hyn a ddywed yn debycach i drafodaeth mewn ysgol ac athrofa nag i genadwri o bulpud!

**Thema'r llyfr**

Mae'r ail adnod yn cyflwyno thema gyffredinol y llyfr gyda'r geiriau 'Gwagedd llwyr, gwagedd llwyr yw'r cyfan' (1:2). Y gair Hebraeg am 'wagedd' neu 'oferedd' yw *hebel*. Mae'n ymddangos 70 o weithiau yn yr Hen Destament – 37 ohonynt yn Llyfr y Pregethwr. Y mae i'r gair ei ystyr sylfaenol, ond nid hawdd yw cael cyfieithiad cyson sy'n addas i bob cyd-destun. Ymysg y lliaws o gyfieithiadau, ceir 'di-fudd', 'diwerth', 'disynnwyr', 'gwirion', 'anadl', 'chwa o wynt', 'pwff o fwg'. Fe'i defnyddir yn yr Hen Destament yn gyffredinol i ddisgrifio unrhyw beth disylwedd a byr ei barhad: eilunod, am eu bod yn gwbl aneffeithiol; cynlluniau nad ydynt yn cyrraedd unman; addewidion nas gwireddir. Yn yr Hebraeg, *Hebel* yw enw Abel, mab byrhoedlog Adda a lofruddiwyd gan ei frawd.

**Gwagedd**

Ond mae'r Pregethwr yn defnyddio'r gair i ddisgrifio pleser, ymdrech, gwaith, golud, gwleidyddiaeth a bywyd yn gyffredinol. Gwagedd yw'r cwbl, meddai. Mae rhywbeth hynod gyfoes i'r agwedd hon lle mae'r awdur yn gofyn "Beth yw pwrpas yr holl bethau hyn y mae pobl yn ei wneud?" Maent yn ddiwyd ac yn brysur, ond i beth? Mae'n llyfr sydd ag elfen besimistaidd ynddo ond eto mae cyd-destun ysbrydol ac ymwybyddiaeth o arglwyddiaeth Duw yn perthyn iddo.

Y defnydd o'r gair yng nghyswllt y gorchymyn i fod yn llawen a mwynhau bywyd sydd wedi arwain esbonwyr cyfoes i feddwl am ystyr lai negyddol iddo yn llaw'r Pregethwr. Yn eu barn hwy, mae *hebel* yn cyfeirio at yr anesboniadwy mewn bywyd; yr hyn sydd y tu hwnt i ddeall dyn. Iddynt hwy, mae'r dehongliad hwn yn gwneud neges y llyfr gymaint â hynny'n llai pesimistaidd, ac felly'n fwy derbyniol.

**Beth 'dych chi'n feddwl?**

1. A yw gwadu'r farn draddodiadol mai Solomon oedd awdur Llyfr y Pregethwr, fel y gwna'r beirniaid Beiblaidd, yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'ch agwedd at ei gynnwys?
2. A ydych yn credu fod Duw'n ei ddatguddio'i hun i gredinwyr heddiw? Os felly, sut?
3. Ym mha ffordd y mae prif thema'r llyfr yn berthasol i ni heddiw?




Cliciwch ar y poster uchod er mwyn gweld yr adnoddau sydd ar y wefan, neu ewch i www.gair.cymru

# Oedfa Garolau Gofalaeth Bröydd Teifi

‘frodyr, dewch, llawenhewch,
diolchwch iddo, byth na thewch!’

Dyfod i’r oedfa, llawenhau gyda’n gilydd a diolch am ein bendithion ar drothwy’r Nadolig wnaeth pawb a deithiodd i gapel Gwyddgrug ar brynhawn dydd Sul 15 Rhagfyr ar gyfer oedfa garolau undebol yr ofalaeth. Braf oedd gweld nifer helaeth o aelodau a ffrindiau’r ofalaeth yn bresennol i ddathlu’r Nadolig a dyfodiad y baban mewn preseb ym Methlehem. Trwy gyfrwng darlleniadau, eitemau cerddorol a charolau traddodiadol a newydd, profwyd llawenydd a naws fendithiol yr ŵyl. Cyflwynwyd yr eitemau a’r darlleniadau gan aelodau’r ofalaeth.

Gwasanaethwyd wrth yr organ ein gweinidog y Parchedig Chris Bolton a gwnaed y gwaith arweiniol gan Betsan Jones, Gwyddgrug. Daeth yr oedfa i’w therfyn yn sain gorfoleddus y garol ‘Clywch lu’r nef yn seinio’n un’.

Henffych, T’wysog heddwch yw;
henffych, Haul Cyfiawnder gwiw:
bywyd ddwg, a golau ddydd,
iechyd yn ei esgyll sydd.
Rhoes i lawr ogoniant nef;
fel na threngom ganwyd ef;
ganwyd ef, O ryfedd drefn,
fel y genid ni drachefn!
Clywch lu’r nef yn seinio’n un,
henffych eni Ceidwad dyn!

Paratowyd lluniaeth gan aelodau eglwys Gwyddgrug ar ddiwedd yr oedfa a chyfle i gymdeithasu dros baned gyda’n gilydd. Diolch i aelodau Capel Gwyddgrug am letya ar ein cyfer ac i’r Parchedig Chris Bolton am drefnu a chydlynu’r gwasanaeth.

Wrth i ni nesáu at lawenydd ac ysbryd yr ŵyl, boed i ni gofio am wir ystyr y Nadolig ac am arwyddocâd y goleuni a ddaeth o’r tywyllwch yng ngwyrth y geni ac ymgnawdoliad Duw yn ei fab Iesu Grist:

Rhown glod i’r Mab bychan, ar liniau
Mair wiwlan,
daeth Duwdod mewn baban i’n byd.

Gwir yw dweud mai da oedd i ni fod yno – dymunwn flwyddyn newydd dda a bendithiol i bawb.

**Siân Thomas,**
**Ysgrifennydd yr Ofalaeth**





# Het wen ar ei ben

Cyrhaeddodd Dafydd Williams, (1779–1874) Troedrhiwdalar, yn ôl ben ei daith yn Aberhonddu yn drybola ac yn wlyb ’dat ei groen. Roedd wedi teithio trwy ddannedd gwynt mynydd Epynt a’i law mân llorweddol. Roedd ei draed yn ddiffrwyth, ei drwyn yn goch a’i gefn yn llaith gan fod yr eirlaw wedi treiddio trwy haenau dyfnaf ei ddilladach. Ar ei ben roedd het ddu ond erbyn diwedd ei bererindod roedd honno yn aneffeithiol lipa gan y gwlybaniaeth. Byddai’n well pe bai wedi gwisgo gogor ar ei ben. Roedd DW wedi alaru ar hyn oherwydd nid dyma’r tro cyntaf i’w benwisg fod yn ddiffygiol. Felly drannoeth fe aeth i’r siop leol i brynu het newydd sbon danlli. Gwelodd un oedd at ei ddant – neu o leiaf at ei gorun – het gref, wen ac urddasol. Gofynnodd y cwestiwn allweddol i’r siopwyr, sef, a yw hon yn dal dŵr? Yr hyn a atebwyd yn gadarnhaol. Felly, fe’i prynodd yn y fan a’r lle gan ddweud, ‘Mi



hoffais hi yn fawr, ac yr wyf yn gwisgo het wen byth oddi ar hynny, a mwy na thebyg mai het wen wisgaf tra fyddaf byw mwyach.’ (Aralleiriad yw hwn o’r hanes a geir yn *Cofiant y Diweddar Barch. David Williams, Troedrhiwdalar* gan Avan Griffiths, 1877.) O hynny ymlaen roedd DW yn enwog fel gweinidog torri cyt a wisgai het wen uwchraddol, fel y gwelir yn y llun.

### Anhwylder

Yn yr un cofiant fe geir hanes arall amdano ym 1833 yn dioddef o or-guriad y galon, yr hyn a’i gofidiai’n fawr. Ni allai gysgu’r nos na phregethu ar y Sul ac yr oedd mewn iselder yn darogan ei farwolaeth annhymig ei hun.

Ymgynghorodd â meddygon gorau’r fro a darllenodd lyfr meddygol enwog Dr Buchanan gan hunan ddadansoddi ei fod yn dioddef o ‘hypochondriae spleen’ neu hyd yn oed ‘scerbutic’, ond i ddim diben (tud. 70). Roedd yn cyrraedd pen ei dennyn felly penderfynodd, gan ei fod yn byw gerllaw, ymweld â ffynnon Llanwrtyd. Dywedai, ‘Yr oeddwn mor wan â brwynen, nis gallwn braidd symud.’ Ond wedi ychydig ddyddiau o yfed o ddŵr y ffynnon, ‘torrodd gyfled a’m llaw

*parhad ar y dudalen nesaf*

# Barn Annibynnol

## Wedi methu ei ddiffodd

Fyddwch chi'n un sy'n ei chael yn anodd codi yn y bora? Mae rhai yn codi fel y gog ac yn llawn egni – rhai hyd yn oed yn mynd i wneud ymarfer corff cyn brecwast! Rhaid i fi gyfaddef mai 'tylluan' ydw i – mae gen i fwy o egni ac awydd cyflawni pethau gyda'r nos nac yn fuan yn y bora. Ar y cyfan, mae 'na ryw deimlad fod y rhai sy'n gwerthfawrogi *lie-in* ddim mor gynhyrchiol a'r bore-godwyr; 'Colli'r bore – colli'r dydd' meddan nhw ynde? Mae rhai yn dweud y gallwch 'hyfforddi' eich hun i ddeffro yn fuan – ac mae'n debyg fod trefn bywyd gwaith rhywun yn chwarae rhan hefyd. Ond dwi bendant yn gwybod fod fy rhythm naturiol i yn ffafrio cael deffro ychydig yn hwyrach. Clywais am theori ddiddorol yn ddiweddar yn dweud mai'r rheswm fod rhai yn 'bobl fore' ac eraill yn well gyda'r nos yw ein bod wedi'n creu yn wahanol am y byddai angen pobl sy'n gallu bod ar ddeffro ar adegau gwahanol i warchod y dreflan yn oes yr 'arth a'r blaidd'! Doedd hi'n dda i ddim cael pawb yn codi'n fore ac eisiau cysgu erbyn amser te – roedd angen rhai oedd wedi cysgu mlaen i fod yn effro i wylio drwy'r nos.


### Colli rhythm

Mae patrwm ein dyddiau ni yn y rhan yma o'r byd hefyd yn effeithio ein rhythm naturiol – a nifer yn cael problemau cysgu am fod gormod o olau artiffisial o'n cwmpas sy'n golygu ein bod yn colli rhythm naturiol y corff. Fe wyddom i gyd sut y gall y golau 'glas' yna o'n ffonau a'n cyfrifiaduron amharu ar gwsg a gorffwys. Mae golau dydd a golau'r haul mor bwysig i roi egni a chodi calon i ni. Gall y rhan yma o'r flwyddyn felly fod yn heriol a'r dydd dal yn fyr – er ei fod yn ymestyn cam ceiliog bob dydd. Ac eto, mae yna rywbeth am y cyfnod yma, pan mae'r dydd yn dechrau ymestyn, sy'n wers i ni am obeithio mewn ffydd. Er ei bod yn ymddangos yn annhebygol rŵan, mae dyddiau hir yr haf ar eu ffordd!

### Goleuni dwyfol

Rydan ni newydd ddathlu gŵyl y geni a gŵyl yr ystwyll – gwyliau sy'n llawn o oleuni dwyfol boed yn seren yn arwain y doethion neu oleuni'r llu nefol yn canu mawl. A'r prif oleuni, wrth gwrs ydy Duw ei hun yn torri fewn i'n byd mewn baban bach. Mwynheais gael cyfle i fyfyrio ar gyfrol y diwinydd a'r offeiriad Dr Paula Gooder; *Women of the Nativity*, dros gyfnod yr Adfent a'r Nadolig. Mae'r myfyrdodau yn parhau mewn gwirionedd tan Ŵyl Fair y Canhwyllau ar 2 Chwefror. Mae Paula Gooder yn dychmygu'r hyn roedd rhai o ferched stori'r Nadolig yn ei brofi a'i deimlo. Mae ganddi un myfyrdod wedi ei seilio ar wraig Herod lle mae'n myfyrio ar ymweliad y doethion â phalas y brenin ac ymateb Herod; ymateb oedd yn ddychryn a bygythiad iddi hithau hefyd. Mae'r doethion yn sôn wrthi am y Meseia oedd wedi dod i fod yn oleuni i






bawb – i achub pob un, waeth o ble bynnag roeddent yn dod neu eu statws yn y gymdeithas. Er ei bod yn ddynes gyfoethog a llewyrchus ar un wedd, roedd realiti byw yn llys Herod yn golygu fod cysgod mawr dros ei bywyd. Mae'r myfyrdod yn gorffen gyda'r paragraff yma:

> Yna, dyma fi'n teimlo rhywbeth nad oeddwn wedi ei deimlo ers i mi fod yn ifanc. Beth oedd o? Roedd yna gynhesrwydd – llygedyn o obaith. Edrychais i fyny ar y seren a oedd yn disgleirio a disgleirio fel nad oedd yna ddim tywyllwch o'i chwmpas. Teimlais yn sydyn fod yn rhaid i mi blygu, i blygu o flaen rhywbeth oedd llawer mwy na fi – yn fwy nag y gallwn ddychmygu. Efallai bod y doethion yn iawn wedi'r cyfan. Efallai fod y Meseia wedi dod i fy achub i hefyd. Uwch fy mhen, roedd y seren yn parhau i ddisgleirio mor, mor llachar – fel petai ei golau yn cael ei dynnu o rywle arall – rhywle ble nad oedd tywyllwch o gwbl.

Cefais fy hun yn myfyrio ar y frawddeg olaf yna am sbel: 'rhywle ble nad oedd tywyllwch o gwbl.' Dyna i chi ddweud, ond dyna darddiad a gobaith ein ffydd ynde? Mae goleuni y Crist byw yn tarddu o rywle lle nad oes tywyllwch o gwbl. A hyd yn oed mewn cyfnodau tywyll yn ein bywydau personol ac yn ein byd, daw cadernid a gobaith o bwyso ar y gwirionedd hwnnw.

> Mae'r golau'n dal i ddisgleirio yn y tywyllwch, a'r tywyllwch wedi methu ei ddiffodd.
>
> Ioan 1:5

**Mererid Mair**

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

# Het wen ar ei ben – parhad

o *scurvy* allan rhwng fy ysgwyddau ar fy nghefn; daliais i'w yfed am ychydig ddyddiau ym mhellach, a gadewais yn ddyn iach, ac ni theimlais byth oddi wrth y clefyd hwnnw eilwaith, yr hwn a ofnwn yn fwy na dyn a chleddyf.' Fe gafodd iachâd o'i gyflwr truenus.

Yna, fe ychwanega Avan Griffiths y geiriau hyn. 'Yna gyda hyawdledd mawr traethai ar rinweddau y ffynnon a'i gwellhaodd. Bu yn ymwelydd cyson â hi, a chynghorai i eraill wneud yr un modd.' Cafodd iachâd o'r ffynnon, siaradai am y ffynnon a gwahoddai eraill i ymweld â hi.

Dyma ddarlun o'r Cristion. Trwy'r Iesu fe gawn iachâd, ein braint yw sôn amdano wrth eraill yn gyson gan eu gwahodd i ddod at yr Arglwydd i gael gwellhad i'w anhwylderau.

Meddai Iesu, 'ond pwy bynnag sy'n yfed o'r dŵr a roddaf fi iddo, ni bydd arno syched byth. Bydd y dŵr a roddaf iddo yn troi yn ffynnon o ddŵr o'i fewn, yn ffrydio i fywyd tragwyddol.'

Ioan 4:14

O'r nef mi glywais newydd
fe'm cododd ar fy nhraed
fod ffynnon wedi ei hagor
i gleifion gael iachâd;
fy enaid, rhed yn ebrwydd,
a phaid â llwfwrhau,
o'th flaen mae drws agored
na ddichon neb ei gau.

Dafydd Wiliam 1721?–94

*Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:*
Y Parchg Ddr Alun Tudur
39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
Caerdydd, CF23 9BS
*Ffôn:* 02920 490582
*E-bost:* tyst@annibynwyr.cymru

*Golygyddion*

Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
LL49 9UE
*Ffôn:* 01766 513138
*E-bost:* IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
Porth Angel, 26 Teras Picton
Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
*Ffôn:* 01267 232577 /
0781 751 9039
*E-bost:* alunlenny@hotmail.co.uk

*Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:*
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWE SA7 0AJ
*Ffôn:* 01792 795888
*E-bost:* undeb@annibynwyr.cymru

*Dalier Sylw!*
Cyhoeddir yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion *Y Tyst* ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

## Newyddion Nadolig Hope-Siloh

Cafwyd llu o weithgareddau yng nghapel Hope-Siloh i ddathlu Gŵyl y Geni eto eleni. Er y tywydd garw, llwyddwyd i gynnal ein ffair Nadolig flynyddol yn hwyrach na'r arfer, ond codwyd digon o arian i noddi plentyn yn Nepal. Hefyd, cafwyd noson o ganu carolau o amgylch y goeden y tu allan i'r capel. Dyma noson sydd bob amser yn hoelio naws y Nadolig ymysg ein haelodau. Bu'n bleser ymuno gyda gwasanaethau Nadolig gofalaeth Bethesda Llangennech ac eglwys Hope-Siloh, Pontarddulais. Cafwyd cyflwyniadau arbennig o stori'r geni gan blant ac ieuenctid y ddwy eglwys. Yn ogystal, cafwyd gwasanaeth boreol bendithiol gan aelodau'r eglwys yn cynnwys, cyflwyniadau, unawdau a darlleniadau.

Yn ôl ein harfer, cynhaliwyd gwasanaeth trawiadol yng ngolau cannwyll ar y nos Sul cyn y Nadolig. Roedd y festri fawr dan ei sang a chodwyd swm parchus tuag at Fyddin yr Iachawdwriaeth.

**Heledd Clarke**





## DATHLU GŴYL Y GENI YNG NGHRICIETH

Cynhaliwyd nifer o wasanaethau i ddathlu'r ŵyl yng Nghricieth a Chapel y Traeth. Y plant a'r ieuenctid fu wrthi'n odidog drwy gyfrwng drama, cerdd a darlleniadau ar Sul 1 Rhagfyr a'r sgript a'r cynhyrchu gan Elin Pugh a Gwyneth Glyn a rhieni'r plant. Bu'n rhaid gohirio'r gwasanaeth yng nghwmni'r Parchg Glenys Jones, Pwllheli oherwydd y storm fawr ar 8 Rhagfyr. Daethom o gwmpas Bwrdd y Cymun ar 15 Ragfyr o dan ofal Iwan Llewelyn. Ar 22 Rhagfyr roedd yr oedfa yng ngofal Ann Lewis, Llangybi.

### Noswyl Nadolig

Yna ar noswyl y Nadolig am 5 o'r gloch ymgasglodd tyrfa gref ar y maes yng Nghricieth mewn gwasanaeth byr eciwmenaidd o dan ofal Kim Williams y rheithor ac Iwan Llewelyn, ac ar fore'r



*Rhan o'r dyrfa ar noswyl Nadolig ar y maes*



*Swyn a Siôn o Glwb Sul Capel y Traeth yn casglu at Gymorth Cristnogol.*

Nadolig cynhaliwyd dathliad Nadolig yng Nghapel y Traeth o dan ofal Gwyneth Glyn ac Iwan Llewelyn. Daethpwyd â'r flwyddyn i ben fore Sul 29 Rhagfyr mewn oedfa o dan ofal Arfon Wyn, y Cristion a'r canwr o Fôn.

Diolch am bob cyfle i ddyrchafu Duw am ddod atom yn Iesu Grist.

**Iwan Llewelyn**

*Cyhoeddwyd gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg ac argraffwyd gan Serol Print, Uned 13, Ystad Ddiwyd. Heol Milland, Castell-nedd, SA11 1NJ. Cofrestrwyd yn y Swyddfa Bost.*